**Cofnodion wedi'u cadarnhau o**
**Gyfarfod Cyd-bwyllgor Comisiynu GIG Cymru**
**a gynhaliwyd yn gyhoeddus ar**
**Ddydd Mawrth 26 Mai 2026 am 10:15am – 14:30pm.**
Trwy Microsoft Teams / wyneb yn wyneb yn y Willowford

| **Aelodau:** | | |
|---|---|---|
| Ian Green (Cadeirydd) | (IG) | Cadeirydd Annibynnol |
| Susan Elsmore | (SE) | Aelod Lleyg |
| Abigail Harris | (AH) | Prif Swyddog Gweithredol, Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe (BIPBA) |
| Shameem Nawaz | (SN) | Aelod Lleyg |
| Suzanne Rankin | (SR) | Prif Swyddog Gweithredol, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro (BIPCAF) |
| Nia Roberts | (NR) | Aelod Lleyg |
| Carol Shillabeer | (CS) | Prif Swyddog Gweithredol, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr |
| Hayley Thomas | (HT) | Prif Swyddog Gweithredol, Bwrdd Iechyd Addysgu Powys |
| Paul Worthington | (PW) | Aelod Lleyg |
| **Dirprwyon:** | | |
| Lee Davies | (LD) | Cyfarwyddwr Gweithredol Strategaeth a Chynllunio, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda |
| Robert Holcombe | (RH) | Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid, Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan |
| **Aelod Cyswllt:** | | |
| Huw George | (HG) | Prif Gomisiynydd Dros Dro |
| Juliet Brown | (JB) | Prif Gomisiynydd |
| **Yn Bresennol:** | | |
| Carole Bell | (CB) | Cyfarwyddwr Nyrsio ac Ansawdd |
| Iolo Doull | (ID) | Cyfarwyddwr Meddygol |
| Aaron Fowler | (AF) | Ysgrifennydd y Pwyllgor |
| Georgina Galletly | (GG) | Cyfarwyddwr Corfforaethol, Cynllunio a Strategaeth |
| Gwen Kohler | (GK) | Dirprwy Gyfarwyddwr Cyllid |
| Sue O'Leary | (SO) | Cyfarwyddwr Comisiynu ar gyfer Iechyd Meddwl, Anableddau Dysgu a Grwpiau sy'n Agored i Niwed |
| Melanie Wilkey | (MW) | Cyfarwyddwr Comisiynu Gwasanaethau Arbenigol |
| Ross Whitehead | (RW) | Cyfarwyddwr Comisiynu ar gyfer Gwasanaethau Ambiwlans a Rhaglenni Cenedlaethol |
| **Arsylwyr:** | | |
| Alex Crawford | (AC) | Dirprwy Gyfarwyddwr Cynllunio Corfforaethol a'r Swyddfa Rheoli Prosiectau |
| Lee Leyshon | (LL) | Dirprwy Gyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol |
| Angela Mutlow | (AM) | Cyfarwyddwr Gweithrediadau, Llais |
| Emma Wood | (EW) | Prif Weithredwr, Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Gwasanaethau Ambiwlans Cymru |
| **Ymddiheuriadau:** | | |
| Philip Kloer | (PK) | Prif Swyddog Gweithredol, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda |
| Paul Mears | (PM) | Prif Swyddog Gweithredol, Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg (BIPCTM) |
| Nicola Prygodzicz | (NP) | Prif Swyddog Gweithredol, Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan |
| Mandy Rayani | (MR) | Aelod Lleyg |
| Stacey Taylor | (ST) | Dirprwy Brif Gomisiynydd a Chyfarwyddwr Cyllid a Gwerth |

| Cyfeirnod Cofnod | Eitem Agenda |
|---|---|
| | **1. Materion Rhagarweiniol** |

| Cyfeirnod Cofnod | Eitem Agenda |
|---|---|
| JCC26/001 | **Croeso a Chyflwyniadau**<br>Croesawyd yr Aelodau, y pwyllgorwyr eraill a'r arsylwyr gan y Cadeirydd i gyfarfod y Cyd-bwyllgor Comisiynu, a gynhaliwyd yn gyhoeddus, a gwnaed y cyflwyniadau. Nid oedd unrhyw wrthwynebiadau i recordio'r cyfarfod, a bydd y recordiad ar gael ar wefan Cyd-bwyllgor Comisiynu GIG Cymru (CBCGC) yn dilyn y cyfarfod. Nodwyd bod cworwm wedi'i gyflawni.<br><br>Cyflwynwyd JB fel Prif Gomisiynydd newydd Cyd-bwyllgor Comisiynu GIG Cymru. |
| JCC26/002 | **Ymddiheuriadau am Absenoldeb**<br>Nodwyd ymddiheuriadau am absenoldeb fel yr uchod. |
| JCC26/003 | **Datganiadau o Fuddiant**<br>Ni nodwyd datganiadau o fuddiant cyn nac yn ystod y cyfarfod. |
| JCC26/004 | **Cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 17 Mawrth a 23 Mawrth 2026 a Materion sy'n Codi**<br>Cafodd cofnodion cyfarfodydd y Cyd-bwyllgor Comisiynu a gynhaliwyd ar 17 a 23 Mawrth 2026 eu derbyn a'u **cymeradwyo** fel cofnodion cywir o'r cyfarfodydd. |
| JCC26/005 | **Cofnod o'r Camau Gweithredu**<br>Cydnabu'r Aelodau yr un cam gweithredu sydd wedi cau a'r ddau gam gweithredu sydd heb eu cyflawni a chytunwyd i rannu'r wybodaeth ddiweddaraf gyda'r Pwyllgor.<br><br>Cydnabuwyd y byddai'r wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd ar gyfer cam gweithredu JCC25/021 – Argymhelliad 4: Opsiynau Ymateb Gwledig yn cael ei diwygio i nodi y byddai diweddariad ychwanegol yn cael ei rannu yng nghyfarfod Gorffennaf 2026 y Cyd-bwyllgor Comisiynu yn dilyn gwaith pellach gan Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Gwasanaethau Ambiwlans Cymru (WAST). |
| | **2. Cyflwyno'r Cefndir** |
| JCC26/006 | **Adroddiad y Cadeirydd**<br>Cafodd Adroddiad y Cadeirydd ei dderbyn fel y'i cyflwynwyd. Yn unol â Rheolau Sefydlog Cyd-bwyllgor Comisiynu GIG Cymru, ystyriodd a chadarnhaodd yr Aelodau gamau a gymerwyd gan y Cadeirydd i gymeradwyo Cynllun Blynyddol Cyd-bwyllgor Comisiynu GIG Cymru 2026/27 yn dilyn trafodaethau yng Nghyfarfod Eithriadol y Cyd-bwyllgor Comisiynu a gynhaliwyd ar 23 Mawrth.<br><br>Nododd yr Aelodau ymhellach fod amcanion wedi'u gosod ar gyfer y Cadeirydd gan Ysgrifennydd blaenorol y Cabinet, ac roedd y rhain yn cynnwys amcanion a rennir ar draws GIG Cymru ac amcanion sefydliad-benodol sy'n berthnasol i flaenoriaethau fel Cadeirydd Cyd-bwyllgor Comisiynu GIG Cymru.<br><br>Gan gydnabod ymddeoliad arfaethedig HG ar 30 Mai 2026, diolchodd IG i HG am ei arweinyddiaeth a'i gefnogaeth i'r Cyd-bwyllgor Comisiynu yn ystod cyfnod o newid sylweddol yn y gwasanaeth gyda dyfodiad strwythur sefydliadol newydd ac am ei gyfraniad ehangach i GIG Cymru dros nifer o flynyddoedd<br><br>Penderfynodd y Cyd-bwyllgor Comisiynu:<br>• **Nodi'r** adroddiad; a<br>• **Chadarnhau** cam gweithredu'r Cadeirydd. |
| JCC26/007 | **Adroddiadau ar y Prif Bwyntiau gan yr Is-bwyllgorau** |

| Cyfeirnod Cofnod | Eitem Agenda |
|---|---|
| | Daeth yr Adroddiadau ar y Prif Bwyntiau gan Is-bwyllgorau CBCGC i law ac fe'u derbyniwyd fel y'u cyflwynwyd.<br><br>**Is-bwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Chanlyniadau (27.04.26)**<br>Nododd yr aelodau nifer o eitemau i'w huwchgyfeirio gan gynnwys:<br>• Canfyddiadau'r adolygiad mamolaeth a newyddenedigol annibynnol 'Y Llwybr tuag at Ddechrau mwy Diogel yng Nghymru' a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru.<br>• Risgiau diogelwch cleifion a chomisiynu sy'n ymwneud â Gofal Iechyd St Andrew's.<br>• Risgiau o ran y gallu i barhau i gynnig gwasanaeth sy'n gysylltiedig â faint o welyau diogelwch canolig ac uchel sydd ar gael.<br>• Caswell Clinic yn parhau i fod wedi'i uwchgyfeirio i Lefel 3 gyda chynllun gweithredu yn yr arfaeth.<br>• Canfyddiadau Arolwg Effeithiolrwydd yr Is-bwyllgor gan gynnwys yr angen i gryfhau cynrychiolaeth y Prif Swyddog Gweithredol.<br><br>**Is-bwyllgor Cynllunio, Perfformiad a Chyllid (PPF) (28.04.26)**<br>Nododd yr aelodau'r canlynol:<br>• Mae'r sefyllfa ariannol wedi gwaethygu gyda gorwariant o £6.3 miliwn ar ddiwedd y flwyddyn, a nododd yr Aelodau yr angen i nodi ac adrodd pan fydd pwysau ar y gwasanaeth a phwysau ariannol yn dod i'r amlwg yn 2026-27.<br>• Y trafodaethau parhaus gydag Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Ambiwlans Cymru ynghylch nodau perfformiad a llwybrau gwella.  Holiodd RH a oedd cyfle i newid adroddiad rheoli perfformiad ambiwlansys i ddigwydd bob deufis, fodd bynnag, dywedodd EW y byddai angen sail gadarn ar gyfer hyn o ystyried lefel yr adrodd sydd eisoes yn digwydd rhwng Cyd-bwyllgor Comisiynu GIG Cymru, Perfformiad a Gwelliant GIG Cymru a LlC.<br><br>**Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd (ARAC) Lletyol  [19.05.26]**<br>Nododd yr aelodau'r canlynol:<br>• Mwy o ffocws a cheisiadau am wybodaeth ynghylch perfformiad ambiwlansys gan gynnwys GIG 111 Cymru a throsglwyddo Straen Trawmatig Cymru i Iechyd Cyhoeddus Cymru. Bydd y diweddariadau hyn yn cael eu rhoi yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd ym mis Awst 2026.<br>• Yr angen am lefel o ddealltwriaeth gyffredin o ran gwahaniaethu rhwng risgiau comisiynwyr a darparwyr ac i sicrhau bod gofynion adrodd yn gymesur.<br><br>Penderfynodd y Cyd-bwyllgor Comisiynu:<br>• **Nodi** cynnwys yr adroddiadau a chael **sicrwydd** bod adolygu a chraffu priodol yn digwydd ar y materion a adroddwyd. |
| JCC26/008 | **Adroddiad y Prif Gomisiynydd**<br>Derbyniwyd Adroddiad y Prif Gomisiynydd.  Nododd yr aelodau'r canlynol:<br>• Arddull newydd yr adroddiad gyda diweddariadau gan y Cyfarwyddwr Comisiynu wedi'u hychwanegu i rannu uchafbwyntiau a meysydd i'w huwchgyfeirio yn dilyn cyfarfodydd is-bwyllgorau'r mis blaenorol. Byddai gwaith yn parhau i fireinio'r manylion a rennir, ond cafodd y diweddariad dderbyniad ffafriol.<br>• Derbyniwyd adborth gan LlC ar Gynllun Blynyddol Cyd-bwyllgor Comisiynu GIG Cymru 2026/27. Roedd yr adborth yn gadarnhaol, er bod ceisiadau am eglurhad pellach wedi dod i law mewn perthynas â rheoli perfformiad Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Ambiwlans Cymru a chael eglurhad o'r cyfrifoldebau rhwng sefydliadau ynghyd â manylion pellach mewn perthynas â chomisiynu gwasanaethau menywod ar draws GIG Cymru.  Byddai'r |

| Cyfeirnod Cofnod | Eitem Agenda |
|---|---|
| | ohebiaeth hon yn cael ei rhannu gydag Aelodau gan gynnwys Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Ambiwlans Cymru.<br>• Newid cadarnhaol yn sefyllfa ariannol Cyd-bwyllgor Comisiynu GIG Cymru ar ddiwedd y flwyddyn. Byddai gwaith pellach yn cael ei wneud yn y Gweithgor Cyllid i ddeall y rhesymeg dros hyn yn llawn.<br><br>Trafodwyd y canlynol gan yr aelodau:<br>• Yr angen i egluro trefniadau atebolrwydd rhwng Cyd-bwyllgor Comisiynu GIG Cymru a Pherfformiad a Gwella GIG Cymru.<br>• Diweddariad ar yr adolygiad o amserlenni Gwasanaeth Cludo Cleifion Mewn Achosion Nad Ydynt yn Rhai Brys, cytunodd RW i drafod amserlenni gydag AM y tu allan i'r cyfarfod. Cadarnhaodd EW safbwynt Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Ambiwlans Cymru mai bach iawn fyddai'r enillion o ran capasiti a fyddai'n bosibl, oherwydd bod 2026/27 yn flwyddyn heb unrhyw fuddsoddiad. Cydnabuwyd ymhellach y byddai angen diweddaru meini prawf cymhwysedd ar gyfer Gwasanaeth Cludo Cleifion Mewn Achosion Nad Ydynt yn Rhai Brys sydd wedi dyddio, ac y byddai cydweithwyr yn gweithio gyda Llais mewn perthynas ag unrhyw newidiadau arfaethedig.<br>• Byddai diweddariad ar adolygiad Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Ambiwlans Cymru o opsiynau ymateb gwledig yn cael ei rannu yng nghyfarfod nesaf y Cyd-bwyllgor **(Cam gweithredu)**.<br>• Trafodaethau rhwng Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Ambiwlans Cymru, Byrddau Iechyd a Pherfformiad a Gwelliant GIG Cymru mewn perthynas â throsglwyddo o ran ambiwlansys. Byddai cyfarfod yn cael ei gynnal ar 2 Mehefin rhwng Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Ambiwlans Cymru, Byrddau Iechyd a Pherfformiad a Gwelliant GIG Cymru i ystyried cynlluniau i gyflawni Trosglwyddo 45 ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe. Fel y comisiynydd, cytunodd yr Aelodau ar yr angen i sicrhau bod Cyd-bwyllgor Comisiynu GIG Cymru yn bresennol ar gyfer y trafodaethau hyn.<br>• Sgyrsiau cadarnhaol parhaus mewn perthynas â chynnydd mewn capasiti ar gyfer gwasanaethau CAR-T, gyda chanolfannau eraill wedi'u sicrhau ar gyfer triniaeth yn Lloegr (Bryste, Birmingham a Llundain). Roedd sgyrsiau'n parhau rhwng Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro a Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe i reoli capasiti yng Nghymru. Nodwyd yn y papur oblygiadau rhanddirymu posibl mewn perthynas â'r gwasanaeth yng Nghymru, oni fydd achrediad rheoleiddiol yn cael ei sicrhau, a chytunwyd y byddai angen trafod hyn yn fanylach gyda'r darparwr cyn cytuno arno. Ystyriwyd hefyd y sefyllfa gyfalaf (a'r ddibyniaeth ar gyllid LlC) a'r goblygiadau refeniw ar gyfer darparu'r gwasanaeth yng Nghymru. Trafododd yr Aelodau nad oedd gwasanaethau lleol bob amser yn gynaliadwy a bod angen gwella'r trefniadau presennol.<br>• Diweddariad mewn perthynas â Gofal Iechyd St Andrews. Nodwyd bod GIG Lloegr yn ystyried darparwyr eraill ac opsiynau i gadw rhywfaint o gapasiti ar y safle, fodd bynnag, nododd yr Aelodau na fyddai hyn yn effeithio ar gleifion Cymru. Roedd ymgysylltu yn parhau â chleifion o Gymru a oedd yn dal ar y safle.<br>• Roedd adolygiad Gwasanaeth Rhywedd Cymru ar y gweill, a byddai'n ystyried galw, capasiti, cost ac ansawdd. Roedd cwmpasu a methodoleg yr adolygiad yn cael eu datblygu a byddent yn cynnwys ymgysylltu â chleifion.<br>• Y gwasanaeth Anemia Etifeddol ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, a oedd yn parhau i fod wedi'i uwchgyfeirio. Nodwyd bod achos busnes yn cael ei ddatblygu i wella gwytnwch y gweithlu, ond nid oedd unrhyw amserlen wedi'i chytuno i gwblhau hyn.<br><br>Penderfynodd y Cyd-bwyllgor Comisiynu: |

| Cyfeirnod Cofnod | Eitem Agenda |
|---|---|
| | • **Nodi** adroddiad y Prif Gomisiynydd a'r diweddariadau a drafodwyd. |
| JCC26/009 | **Cofrestr Risgiau Cyd-bwyllgor GIG Cymru – Ionawr 2026**<br>Cyflwynwyd Cofrestr Risg Weithredol Cyd-bwyllgor GIG Cymru ar 31 Mawrth 2026. Roedd gan 14 o risgiau'r CRG sgôr o 15 ac uwch (risgiau eithafol). Roedd y rhain yn cynnwys:<br>• 12 risg comisiynu a 2 risg sefydliadol.<br>• Risg 68 - Gwasanaeth Dyfais Mewnblaniad Clywedol Arbenigol Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, a oedd wedi'i ail-ychwanegu at y CRG ar ôl cael ei uwchgyfeirio eto o sgôr o 12 i 16.<br>• Risg 61 - Llawfeddygaeth gordewdra ar gyfer poblogaeth Gogledd Cymru a oedd wedi'i ostwng o sgôr o 20 i 16 yn dilyn cynnydd drwy gael hyd i atebion darparu dros dro.<br><br>Cydnabuwyd y byddai Fframwaith Sicrwydd y Cyd-bwyllgor yn cael ei rannu gyda'r Cyd-bwyllgor yng nghyfarfod mis Gorffennaf 2026.<br><br>Trafodwyd y canlynol gan yr aelodau:<br>• Bod gwaith yn mynd rhagddo o fewn y tîm Ambiwlans a 111 i fireinio eu risgiau, er mwyn eu hail-gyflwyno i'r Cyd-bwyllgor.<br>• Yn dilyn her ynghylch presenoldeb risgiau sy'n gysylltiedig ag ymateb Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Ambiwlans Cymru i Ymchwiliad Arena Manceinion, cadarnhaodd AF y byddai'r Cyd-bwyllgor Comisiynu GIG Cymru yn parhau i roi gwybod am risgiau sy'n canolbwyntio ar gomisiynwyr sy'n seiliedig ar faterion sy'n ymwneud â niwed i gleifion a pherfformiad ac nid risgiau na materion i'w rheoli gan ddarparwyr. Ychwanegodd mai dim ond risgiau Cyd-bwyllgor Comisiynu GIG Cymru sy'n sgorio 15 neu uwch, neu'r rhai sy'n newydd eu natur, fyddai'n ymddangos ar y CRG, gan gydnabod y byddai risgiau sy'n gysylltiedig â materion gweithredol, fel Gwasanaeth Cludo Cleifion Mewn Achosion Nad Ydynt yn Rhai Brys, a allai sgorio'n is na hyn yn cael eu rheoli a'u hadrodd ar lefel cyfarwyddiaeth.<br><br>Penderfynodd y Cyd-bwyllgor Comisiynu:<br>• **Nodi'r** adroddiad.<br>• **Nodi'r** gwaith a wnaed i wella'r CRG, a<br>• **Chymeradwyo** Cofrestr Risgiau Sefydliadol Cyd-bwyllgor Comisiynu GIG Cymru fel ag yr oedd ar 31 Mawrth 2026. |
| | **3. Cyflawni Cynllun Cyd-bwyllgor Comisiynu GIG Cymru** |
| JCC26/010 | **Adroddiad Perfformiad Ariannol CBCGC – Mis 12 (25-26) ac 1 (26-27)**<br>Derbyniwyd Adroddiadau Perfformiad Ariannol Mis 12 ac 1. Nododd yr aelodau'r canlynol:<br>• Roedd sefyllfa diffyg 2025/26 wedi gwella ar ddiwedd y flwyddyn.<br>• Roedd rhagolygon ym Mis 1 2026/27 yn amwys, fodd bynnag, byddai gwybodaeth fwy manwl yn cael ei rhannu wrth i'r flwyddyn fynd yn ei blaen.<br>• Roedd disgwyl i Gytundebau Tymor Hir gael eu llofnodi erbyn diwedd mis Mai 2026 a fyddai'n llywio cynlluniau ariannol Cyd-bwyllgor Comisiynu GIG Cymru.<br>• Cytunwyd ar ddirprwyaethau cyllidebol, fel y'u rhannwyd, ar gyfer tîm Uwch Arweinyddiaeth Cyd-bwyllgor Comisiynu GIG Cymru.<br><br>Trafodwyd y canlynol gan yr aelodau:<br>• Y gwaith a wnaed i gyflawni arbedion ychwanegol yn ystod y flwyddyn yn ystod Mis 12 2025/26.<br>• Y diffyg gwybodaeth sydd ar gael ym Mis 1 a'r disgwyliad o fod mewn sefyllfa o adennill costau ym Mis 2. |

| Cyfeirnod Cofnod | Eitem Agenda |
|---|---|
| | • Yr angen am lefel o fanylder mewn perthynas â sut mae'r adroddiadau'n rhoi sicrwydd i'r Cyd-bwyllgor o ran y sefyllfa ariannol sy'n dod i'r amlwg, gan sicrhau y gellir cymryd camau unioni mewn modd amserol.<br>• Yr angen am fanylion ychwanegol i'w rhannu yn nodi lefel hyder Cyd-bwyllgor Comisiynu GIG Cymru o ran cyflawni sefyllfa ariannol gytbwys, gan gydnabod bod y Cynllun Blynyddol ar gyfer 2026/27 yn cyflwyno cryn dipyn o risg ariannol.<br>• Yr angen i graffu ar sefyllfa ariannol Mis 2 yn y cyfarfod Cynllunio, Perfformio a Chyllid a gynhelir ar 2 Gorffennaf 2026 cyn adrodd ar Fis 3 yng nghyfarfod y Cyd-bwyllgor ar 21 Gorffennaf 2026.<br>• Y gwaith i nodi cyfleoedd fel rhan o raglen effeithlonrwydd a chynaliadwyedd Cyd-bwyllgor Comisiynu GIG Cymru. Cytunodd yr Aelodau fod angen gwahaniaethu rhwng cyfleoedd comisiynydd a darparwr, ac arbedion i'w cyflawni fel rhan o waith busnes fel arfer. Cydnabuwyd hefyd y byddai angen i gyfleoedd arbed nodi'r effeithiau ariannol posibl ar gyfer meysydd gwasanaeth ehangach.<br><br>**CAM GWEITHREDU:** Sefyllfa ariannol Mis 2 i'w chraffu yn y cyfarfod Cynllunio, Perfformio a Chyllid ar ddechrau mis Gorffennaf, gydag adrodd ar Fis 3 i ddigwydd yng nghyfarfod y Cyd-bwyllgor ar 21 Gorffennaf 2026.<br><br>Penderfynodd y Cyd-bwyllgor Comisiynu:<br>• **Nodi'r** sefyllfa diwedd blwyddyn ar gyfer 2025/26 a sefyllfa mis 1 ar gyfer 2026/27.<br>• **Nodi'r** dirprwyaethau ariannol a nodir yn Eitem 3.1.3 ar yr Agenda. |
| JCC26/011 | **Adroddiad Perfformiad CBCGC**<br>Derbyniwyd Adroddiad Perfformiad CBCGC ar gyfer Mis 12. Trafodwyd y canlynol gan yr aelodau:<br>• Sut mae cleifion o Ogledd Cymru yn cael mynediad at Wasanaethau Bariatrig ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe. Nodwyd bod nifer fach o gleifion yn gallu teithio'n annibynnol ac nad oeddent wedi bod yn ddibynnol ar y gwasanaeth Cludo Cleifion Mewn Achosion Nad Ydynt yn Rhai Brys. Roedd proses darparwr dynodedig yn cael ei chynnal yn ystod yr wythnosau nesaf i ddod o hyd i ddarparwr yng Ngogledd Cymru. Yn y cyfamser, roedd trefniadau interim mwy cadarn yn cael eu trafod gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe.<br>• Cyfraddau defnydd isel o unedau iechyd meddwl diogelwch canolig a oedd yn cael ei adolygu o fewn yr Adolygiad Strategol Iechyd Meddwl.<br>Nodwyd gwerthusiadau mewnol o berfformiad y gweithlu fel y'u cyflwynwyd. Pwysleisiodd JB fod angen canolbwyntio ar hyn i gefnogi staff yn eu hymdrechion i gyflawni Cynllun Blynyddol Cyd-bwyllgor Comisiynu GIG Cymru 2026/27.<br><br>Penderfynodd y Cyd-bwyllgor Comisiynu:<br>• **Nodi** Adroddiad Perfformiad Cyd-bwyllgor Comisiynu GIG Cymru a'r Cyllidebau Dirprwyedig a rannwyd gyda'r Cyd-bwyllgor. |
| JCC26/012 | **Cyflawni Cynllun Blynyddol Cyd-bwyllgor Comisiynu GIG Cymru – Manylebau Blaenoriaeth Strategol ac Archwiliadau Manwl**<br>Cyflwynwyd yr adroddiad a'r dogfennau cwmpasu gan GG. Nododd yr aelodau'r canlynol:<br>• Roedd Sesiwn Strategaeth y Cyd-bwyllgor ym mis Ebrill 2026 wedi trafod yr egwyddorion cynllunio allweddol ar gyfer cyflawni Cynllun Blynyddol Cyd-bwyllgor Comisiynu GIG Cymru 2026/27 ac wedi rhoi sicrwydd mewn |

| Cyfeirnod Cofnod | Eitem Agenda |
|---|---|
| | perthynas â'r cerrig milltir allweddol. Roedd y diweddariad yn rhannu'r cwmpasau prosiect oedd wedi eu cadarnhau, y rolau a'r cyfrifoldebau, yn ogystal a'r ymgysylltu oedd angen ei wneud.<br>• Mae prosiect ychwanegol ar effeithlonrwydd a chynaliadwyedd gyda chynrychiolaeth Aelodau Lleyg hefyd wedi'i ddechrau i gefnogi'r cyflawniad.<br>• Bod gan bob un o'r meysydd gwaith Brif Swyddog Gweithredol yn noddwr gydag Aelodau Lleyg a Chyfarwyddwyr Gweithredol hefyd yn gysylltiedig â phrosiectau.<br>• Byddai cysylltiadau'n cael eu sefydlu â'r Grŵp Arweinyddiaeth Comisiynu Cydweithredol i sicrhau goruchwyliaeth o'r ddarpariaeth gan y Bwrdd Iechyd.<br>• Mae'r dogfennau cwmpasu sydd ynghlwm yn nodi beth fydd yn cael ei gyflawni ar gyfer pob maes blaenoriaeth.<br>• Y byddai canlyniadau pob un o'r Adolygiadau Strategol a'r Archwiliadau Manwl yn bwydo i'r IMTP sefydliadol ar gyfer 2027/28 – 2029/30.<br><br>Trafodwyd y canlynol gan yr aelodau:<br>• Dogfen Gwmpasu Adolygiad Strategol Iechyd Meddwl - trafodwyd y maes blaenoriaeth hwn gan gynnwys yr angen i:<br>    ○ Ganolbwyntio ar wella'r model gofal i wella canlyniadau a phrofiad cleifion, lleihau arosiadau cleifion a sicrhau gwasanaeth teg.<br>    ○ Cynnig argymhellion am wasanaethau a chyfluniad i ddiwallu anghenion y boblogaeth yn C3.<br>    ○ Sicrhau bod yr adolygiadau strategol yn cysylltu â chwmpas llywodraethu cyffredinol Cyd-bwyllgor Comisiynu GIG Cymru.<br>    ○ Ystyried y màs critigol ar gyfer y gwaith hwn mewn perthynas â'i gyflawni o fewn Cymru.<br>    ○ Sicrhau bod darparwyr yn Lloegr yn cael eu cynnwys fel rhanddeiliaid.<br><br>• Dogfen Gwmpasu Adolygiad Strategol o Iechyd Meddwl - trafodwyd y maes blaenoriaeth hwn gan gynnwys yr angen i:<br>    ○ Fod yn ymwybodol o'r gwaith a wnaed o'r blaen.<br>    ○ Sefydlu'r angen ar draws Cymru ac yna ar draws y Deyrnas Unedig, gan sicrhau asesiad o'r sefyllfa bresennol a'r opsiynau yn y dyfodol.<br>    ○ Peidio â chynnwys gwasanaethau mamolaeth, ni fyddai'r rhain o fewn y cwmpas – fodd bynnag, nodwyd yr angen i wasanaethau mamolaeth a newyddenedigol gyd-redeg. Cydnabuwyd y gellid dysgu gwersi cadarnhaol o waith tebyg a wnaed gan GIG yr Alban.<br>    ○ Cynnwys adolygiad allanol o'r galw a'r capasiti gyda chytundeb ar yr egwyddorion i'w mabwysiadu.<br>    ○ Cynnwys Perfformiad a Gwelliant y GIG fel rhanddeiliaid.<br>    ○ Adolygu goblygiadau a chostau contractau'r gweithlu presennol.<br>    ○ Ystyried mater a gododd o fewn Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe yn dilyn adolygiad annibynnol o'r gwasanaethau mamolaeth a newyddenedigol sy'n gysylltiedig â gwasanaethau newyddenedigol a mamolaeth lefel 3 ar safle nad yw'n darparu gofal acíwt na brys 24/7. Roedd hyn wedi cael ei uwchgyfeirio i Lywodraeth Cymru a byddai angen iddo fod yn rhan o'r sgwrs ynghylch ad-drefnu gwasanaethau.<br>    ○ Byddai angen ystyried adborth defnyddwyr gwasanaeth yn gynnar yn y broses.<br>    ○ Cynnwys adolygiad o wasanaethau trafnidiaeth newyddenedigol.<br><br>• Dogfen Gwmpasu Adolygiad Strategol Gwasanaethau Cardiaidd - trafodwyd y maes blaenoriaeth hwn gan gynnwys yr angen i: |

| Cyfeirnod Cofnod | Eitem Agenda |
|---|---|
| | ○ Sicrhau gwasanaeth cynaliadwy a chyfartal yn y dyfodol gan fynd i'r afael â’r pwysau ariannol a’r pwysau ar y system a nodwyd ac adeiladu ar yr adolygiad blaenorol o Lawfeddygaeth y Galon.<br>○ Ymgymryd â modelu galw a chapasiti yn erbyn yr angen poblogaeth presennol gan sicrhau gwerth, ansawdd, mynediad a chynaliadwyedd ariannol.<br>○ Datblygu opsiynau sy'n seiliedig ar dystiolaeth ac yn glinigol gadarn.<br>○ Sicrhau ymgysylltiad cynnar â rhanddeiliaid.<br>○ Adolygu amserlenni i symud ymlaen yn gyflymach os yn bosibl, gan gynnwys y posibilrwydd o adolygiad galw a chapasiti ar ddau ffrwd wahanol.<br>○ Sicrhau bod y llwybr ehangach wedi'i fapio i nodi pwyntiau mynediad a gadael.<br><br>• Dogfen Gwmpasu Adolygiad Strategol Gwasanaethau Cardiaidd - trafodwyd y maes blaenoriaeth hwn gan gynnwys yr angen i:<br>○ Sicrhau bod y trefniadau comisiynu presennol yn cyd-fynd â'r newidiadau a wnaed i'r fframwaith gweithredu ambiwlans.<br>○ Ymgorffori adolygiadau cynhyrchiant blaenorol a gynhaliwyd.<br>○ Cydnabod y modelau cyfnewidiol o Fyrddau Iechyd a'r angen i adlewyrchu'r angen i drosglwyddo cleifion rhwng safleoedd ysbytai.<br>○ Ymgysylltu â'r holl randdeiliaid perthnasol gan gynnwys Byrddau Iechyd. Cadarnhaodd EW y byddai Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Ambiwlans Cymru yn gweithio gyda thîm Comisiynu Cyd-bwyllgor Comisiynu GIG Cymru i sicrhau bod yr holl randdeiliaid yn cymryd rhan, gyda'r cynllun ymgysylltu yn un o'r pethau cyntaf i’w cyflwyno.<br>○ Monitro amserlenni ar gyfer cyflawni i sicrhau bod Cyd-bwyllgor Comisiynu GIG Cymru yn gallu cyflawni allbynnau proses gynllunio Cynllun Tymor Canolig Integredig 2027/28 – 2029/30.<br>○ Sicrhau bod y system yn gweithio ar y cyd i yrru a chynyddu enillion cynhyrchiant gan gynnal y berthynas rhwng y comisiynydd a'r darparwr.<br><br>• Dogfen Gwmpasu Archwilio Manwl Arennol – trafodwyd y maes blaenoriaeth hwn gan gynnwys yr angen i:<br>○ Ennill dealltwriaeth o’r gwasanaethau arennau yng Nghymru a'r canlyniadau gofynnol ar gyfer y gwasanaeth, gan fod yn gwbl dryloyw ynghylch y trefniadau presennol.<br>○ Ystyried effeithlonrwydd y gwasanaeth a chontractau.<br>○ Lleihau risg a lliniaru pwysau costau.<br>○ Nodi cyfleoedd sy'n deillio o drefniadau presennol i wella canlyniadau, i gynyddu gwerth a lleihau risg.<br>○ Mynd â'r canfyddiadau drwy strwythurau Rhwydwaith Arennau Cymru cyn adrodd yn un o gyfarfod y Cyd-bwyllgor yn y dyfodol.<br><br>• Dogfen Cwmpasu Archwiliad Manwl i Gais Cyllido Cleifion Unigol – trafodwyd y maes blaenoriaeth hwn gan gynnwys yr angen i:<br>○ Wahaniaethu rhwng elfennau busnes fel arfer ac elfennau 'Cais Cyllido Cleifion Unigol gwirioneddol' nad ydynt yn geisiadau arferol o fewn y gyllideb Cais Cyllido Cleifion Unigol.<br>○ Deall pwysigrwydd canlyniadau a buddion a gosod cyllideb realistig ar gyfer Cais Cyllido Cleifion Unigol.<br>○ Mynd i'r afael â'r dull a'r diwylliant presennol o ran y meini prawf ar gyfer archebu Cais Cyllido Cleifion Unigol.<br>○ Edrych ar gyfleoedd ar gyfer comisiynu’n strategol gan sicrhau dull mwy clir a threfnus a gwell gwerth am arian. Nododd yr Aelodau y byddai |

| Cyfeirnod Cofnod | Eitem Agenda |
|---|---|
| | adolygiad thematig o achosion Cais Cyllido Cleifion Unigol yn offeryn defnyddiol i nodi meysydd ar gyfer comisiynu gwasanaethau arfaethedig yn y dyfodol.<br><br>• Dogfen Gwmpasu Archwilio Manwl Thrombectomi – trafodwyd y maes blaenoriaeth hwn gan gynnwys yr angen i:<br>  ○ Gynnal dadansoddiad llwybr cyffredinol i wneud y gorau o fynediad at wasanaethau thrombectomi.<br>  ○ Deall materion hanesyddol a chysylltiadau â gwasanaethau strôc.<br>  ○ Nodi beth yw angen y boblogaeth er mwyn cyfrannu’n well at benderfyniadau yn y dyfodol.<br>  ○ Gwella canlyniadau disgwyliedig i gleifion.<br><br>• Dogfen Cwmpasu Archwilio Manwl Rheoli Llwybrau ac Atgyfeiriadau – trafodwyd y maes blaenoriaeth hwn gan gynnwys yr angen i:<br>  ○ Ddod â rheoli llwybrau ac atgyfeiriadau ynghyd â mentrau sy'n seiliedig ar werthoedd i lywio comisiynu yn y dyfodol.<br>  ○ Dod â'r ffynonellau data at ei gilydd i gefnogi gwneud penderfyniadau gwybodus.<br>  ○ Nodi'r cysylltiadau â risgiau o safbwynt rheoli gweithgaredd a deall llif atgyfeiriadau. Nodwyd bod y gwaith hwn yn cael ei fonitro drwy'r Is-bwyllgor Chynllunio, Perfformiad a Chyllid.<br>  ○ Sicrhau cynnwys Perfformiad a Gwelliant y GIG.<br>  ○ Deall y mecanwaith ar gyfer rheoli atgyfeiriadau, a fyddai'n allbwn allweddol o'r archwilio manwl.<br><br>Diolchwyd i'r aelodau am weithio yn gyflym gyda Chyfarwyddwyr Cyd-bwyllgor Comisiynu GIG Cymru a'u timau<br>i ddatblygu'r dogfennau cwmpasu hyn mewn cyfnod cymharol fyr. Byddai'r sgyrsiau a gynhaliwyd yn llywio gwaith yn y dyfodol ar y meysydd blaenoriaeth hyn gan gynnwys yr angen i ganolbwyntio ar wella canlyniadau cleifion a sicrhau'r gwerth mwyaf posibl, dysgu o feysydd eraill a sicrhau bod cleifion yn ymgysylltu gyda chyfranogiad Llais. Byddai canlyniadau'r darnau hyn o waith yn sicrhau mwy o gomisiynu a bwriad strategol a byddai'n adeiladu i mewn i'r Cynllun Tymor Canolig Integredig 2027/28 – 2029/2030.<br><br>Penderfynodd y Cyd-bwyllgor Comisiynu:<br>• **Gymeradwyo'r** Dogfennau Cwmpasu Blaenoriaeth Strategol a rennir. |
| | **4. Llywodraethiant, Sicrwydd a Phenderfyniadau** |
| JCC26/013 | **Hybiau Cymorth Clinigol a Phen Blaen Digidol NHS 111**<br>Derbyniwyd yr adroddiad a chafodd ei gyflwyno gan RW. Nododd yr aelodau’r canlynol:<br>• Fod cefnogaeth wedi'i darparu'n flaenorol ar gyfer Opsiwn 2 (dyrannu cyllid i Gyd-bwyllgor Comisiynu GIG Cymru i gryfhau capasiti cenedlaethol clinigol o bell). Gofynnwyd i'r aelodau **gymeradwyo** hyn yn ffurfiol a throsglwyddo cyllid a chyfrifoldeb comisiynu ar gyfer Hybiau Cymorth Clinigol i Gyd-bwyllgor Comisiynu GIG Cymru o Chwarter 3 2026-27.<br>• Roedd y gwaith o ddarparu dyraniad wedi'i glustnodi yn rheolaidd ar gyfer datblygu'r platfform digidol 111 hefyd wedi'i drosglwyddo i Gyd-bwyllgor Comisiynu GIG Cymru . Byddai hyn yn caniatáu i Gyd-bwyllgor Comisiynu GIG Cymru ddarparu cefnogaeth strategol ar gyfer pen blaen digidol y gwasanaeth.<br>• Y gofynnwyd i gynrychiolwyr y Byrddau Iechyd gyflwyno sesiynau ar ddatblygu hybiau clinigol, a chydnabuwyd bod Bwrdd Arweinyddiaeth GIG Cymru yn ystyried mai mesur dros dro oedd dyrannu cyllid i Gyd-bwyllgor |

| Cyfeirnod Cofnod | Eitem Agenda |
|---|---|
| | Comisiynu GIG Cymru. Roedd angen gwaith pellach mewn perthynas â lle byddai'r cyllid hwn yn eistedd yn y tymor hir gyda'r angen am adolygiad i drafod yr adnoddau sydd ar waith ar hyn o bryd.<br><br>Penderfynodd y Cyd-bwyllgor Comisiynu:<br>• **Gymeradwyo** trosglwyddo cyfrifoldeb cyllido a chomisiynu ar gyfer hybiau cymorth clinigol rhanbarthol o Chwarter 3 2026/27 i Gyd-bwyllgor Comisiynu GIG Cymru.<br>• **Nodi** darpariaeth y cyllido neilltuedig rheolaidd i Gyd-bwyllgor Comisiynu GIG ar gyfer datblygu platfform digidol 111. |
| JCC26/014 | **Adroddiad Llywodraethiant Corfforaethol**<br>Derbyniwyd yr Adroddiad Llywodraethu Corfforaethol. Nododd yr aelodau'r canlynol:<br>• Roedd cyfres o ddogfennaeth diwedd blwyddyn (Rheolau Sefydlog [SOs], Cyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog [SFIs] a'r Canllawiau ar Ymdrin â Buddiannau) wedi'u rhannu i'w cymeradwyo. Roedd y dogfennau hyn hefyd wedi cael eu rhannu â'r Is-bwyllgorau ac roedden nhw wedi craffu arnynt. Ar yr un pryd, rhannwyd y dogfennau gyda byrddau'r Byrddau Iechyd i'w cymeradwyo yn amodol ar gymeradwyaeth y Cyd-bwyllgor.<br>• Rhannwyd y Datganiad Llywodraethu Blynyddol a'r Adroddiad Atebolrwydd i'w gymeradwyo cyn cael ei rannu â BIPCTM i'w gynnwys yn Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon y sefydliad.<br><br>Penderfynodd y Cyd-bwyllgor Comisiynu:<br>• **Gymeradwyo'r** Datganiad Llywodraethiant Blynyddol<br>• **Cefnogi'r** Rheolau Sefydlog, y Cyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog a'r Canllawiau ar Ymdrin â Buddiannau.<br>• **Nodi'r** adroddiad, a'r diweddariadau a rannwyd, gan gydnabod y sicrwydd a ddarparwyd. |
| | **5. Er gwybodaeth** |
| JCC26/015 | **Blaengynllun Busnes**<br>Nodwyd y Blaengynllun Busnes a byddai'n cael ei ddiweddaru i adlewyrchu'r busnes a drafodwyd yn ystod y cyfarfod. |
| | **6. Busnes i Gloi** |
| JCC26/016 | **Unrhyw Fater Arall**<br>Nododd y Cadeirydd mai dim ond un Prif Swyddog Gweithredol oedd yn aelod o'r Is-bwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Chanlyniadau (QSOC) o hyd, a bod hyn wedi cael ei nodi mewn fforymau eraill (megis Archwilio, Risg a Sicrwydd). Byddai hyn yn cael ei drafod yng nghyfarfod Strategaeth y Cyd-bwyllgor ym mis Mehefin 2026 fel rhan o adborth Arolwg Effeithiolrwydd Pwyllgor y Cyd-bwyllgor. |
| JCC26/017 | **Adolygu'r Cyfarfod**<br>Diolchodd IG i'r rhai oedd yn bresennol am eu cyfraniadau a chydnabu'r adborth bod y cyfarfod wedi mynd rhagddo'n esmwyth. |
| JCC26/018 | **Dyddiad y Cyfarfod Nesaf**<br>Mae cyfarfod nesaf y Cyd-bwyllgor wedi'i drefnu ar gyfer 21 Gorffennaf 2026. |